**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG/00257/23

Paul Davies AS
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd,
Caerdydd,
CF99 1SN

24 Gorffennaf 2023

Annwyl Paul Davies AS,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 26 Mehefin, yn gofyn am ragor o wybodaeth am waith gyda Phartneriaeth Porth y Gorllewin, strwythurau Llywodraeth y DU, Fframwaith Windsor a Model Gweithredu Targed y Ffin.

O ran y cyfleoedd hydrogen sy'n gysylltiedig â Phorth y Gorllewin, rydym yn gwybod bod yr argyfwng hinsawdd yn golygu bod rhaid inni ddefnyddio'r holl offer sydd ar gael inni i gyflymu'r cynnydd tuag at system ynni sero net. Rydym yn cynnal deialog rheolaidd â Phartneriaeth Porth y Gorllewin ar feysydd o weithgarwch ar y cyd ac roedd y Gweinidog Newid Hinsawdd yn brif siaradwr yn ei chynhadledd hydrogen yn ddiweddar yn ICCW. Rydym hefyd yn gweithio gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i archwilio sut y gallwn gefnogi prosiect arddangos hydrogen sy’n canolbwyntio ar drafnidiaeth a gwresogi ardal.

Er ei bod yn dal i fod yn dechnoleg sy’n datblygu, mae priodweddau unigryw hydrogen yn golygu y gallai, ochr yn ochr â datblygiadau ynni adnewyddadwy helaeth, chwarae rhan gref wrth ddatgarboneiddio prosesau pŵer, trafnidiaeth a diwydiannol Cymru ac y gallai fod â rôl o ran darparu gwresogi carbon isel.

Mae’n hanfodol, wrth inni ddatblygu ein capasiti hydrogen, nad ydym yn cloi cenhedlaeth sy’n dibynnu ar ddefnydd parhaus o danwydd ffosil. Rydym am weld newid cyflym i hydrogen gwyrdd yng Nghymru cyn gynted ag y bo’n ymarferol bosibl.

Mae ein llwybr hydrogen yn nodi deg amcan sy'n canolbwyntio ar gamau gweithredu tymor byr sy'n ysgogi galw, cynhyrchu a chamau gweithredu trawsbynciol hyd at 2025. Maent hefyd yn nodi ffyrdd o gynllunio ar gyfer prosiectau ar raddfa fwy i sicrhau bod Cymru mewn sefyllfa dda o ran hydrogen a thechnolegau celloedd tanwydd.. Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid yng Nghymru i gyflawni ein huchelgeisiau.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O ran strwythur yr Adran Busnes a Masnach, nid ydym wedi cael strwythur trefniadol manwl, ond mae gennym restr o gyfrifoldebau Gweinidogol, sef y rhain fel a ganlyn:

- Gweinidog dros Fasnach Ryngwladol - Gweinidog Huddleston
- Gweinidog dros Ddiwydiant a Diogelwch Economaidd - Gweinidog Ghani (hefyd y Gweinidog dros Ddiogelwch Buddsoddiadau yn Swyddfa'r Cabinet)
- Gweinidog dros Fuddsoddi – yr Arglwydd Johnson
- Gweinidog dros Fenter, Marchnadoedd a Busnesau Bach - Gweinidog Hollinrake
- Gweinidog dros Allforio – yr Arglwydd Offord (Gweinidog yr Arglwyddi yn Swyddfa'r Alban hefyd)
- Gweinidog dros Ddiwygio Rheoleiddiol - Iarll Minto.

Rwyf wedi nodi rhestr fanylach o gyfrifoldebau yn atodiad A.

Mewn perthynas â Fframwaith Windsor, mae rhaglen is-ddeddfwriaeth i weithredu rhai darpariaethau yn y fframwaith, yn enwedig y Cynllun Symud Nwyddau Manwerthu, yn cael ei harwain gan DEFRA gyda Gweinidog Materion Gwledig, Gogledd Cymru a'r Trefnydd yn arwain ar ran Llywodraeth Cymru. Rwy'n siŵr y byddai'r Gweinidog yn hapus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor wrth i'r rhaglen fynd yn ei blaen.

Yn olaf, o ran Model Gweithredu Targed y Ffin, rydym yn disgwyl cyhoeddiad gan Lywodraeth y DU yn ystod yr wythnos neu ddwy nesaf. Byddaf yn rhoi diweddariad pellach i Aelodau'r Pwyllgor cyn gynted ag y caiff hwnnw ei gyhoeddi, gan nodi'r hyn y mae'n ei olygu i nwyddau sy'n symud i Gymru o ynys Iwerddon. Byddaf hefyd yn gosod Datganiad Ysgrifenedig yn y Senedd.

Gobeithiaf y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor.

Yn gywir,



**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

**Atodiad A**

| Enw / Rôl | Cyfrifoldebau |
|---|---|
| | |
| Nigel Huddleston AS<br><br>Gweinidog dros Fasnach Ryngwladol | • Cytundeb masnach rydd (FTA) cyffredinol a strategaeth mynediad i'r farchnad<br>• Trafodaethau FTA<br>• Cysylltiadau masnach dwyochrog<br>• Osaka 2025 Expo<br>• Polisi amlochrog<br>• Rhwymedïau masnach<br>• Tariffau ac anghydfodau<br>• Uned Rheoli Allforio ar y Cyd<br>• Cenhadon masnach<br>• Gweithredu ac adolygu Cytundeb Masnach a Chydweithrediad (TCA) y DU-UE<br>• Ymwneud â thiriogaethau dibynnol ar y goron a thiriogaethau tramor<br>• Y Comisiwn Masnach ac Amaethyddiaeth<br>• Awdurdod Rhwymedïau Masnach |
| Nusrat Ghani AS<br><br>Gweinidog dros Ddiwydiant a Diogelwch Economaidd | • Gweithgynhyrchu uwch<br>• Modurol<br>• Awyrofod<br>• Cynaliadwyedd a Seilwaith<br>• Dur<br>• Deunyddiau<br>• Y môr ac adeiladu llongau<br>• Gwasanaethau proffesiynol a busnes<br>• Cytundebau masnach rydd Canada a Mecsico<br>• Diogelwch economaidd<br>• Cyfraith yr UE a ddargedwir (diddymu a diwygio)<br>• Sancsiynau<br>• Ailadeiladu Wcráin<br>• Cadwyni cyflenwi byd-eang<br>• Mwynau hanfodol<br>• Amddiffyn masnach<br>• Bwrdd Cynghorol Datblygu Diwydiannol (IDAB) |
| Yr Arglwydd Dominic Johnson o Lainston CBE<br><br>Gweinidog dros Fuddsoddi | • Strategaeth fuddsoddi<br>• Hyrwyddo buddsoddiad ar draws pob sector<br>• Rheoli'r berthynas â buddsoddwyr<br>• Digwyddiadau buddsoddi (gan gynnwys Uwchgynhadledd Buddsoddi Byd-eang)<br>• Sgrinio Buddsoddwyr DBT<br>• Swyddfa Buddsoddi<br>• Allforion amddiffyn a diogelwch<br>• Deddfwriaeth fasnach yr Arglwyddi |
| Kevin Hollinrake AS<br><br>Gweinidog dros Fenter, | • Busnesau bach a menter<br>• Strategaeth ehangu<br>• Mynediad at gyllid |

| | |
|---|---|
| Marchnadoedd a Busnesau Bach | • Y farchnad lafur a hawliau cyflogaeth (gan gynnwys yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol)<br>• Gwasanaethau Post (gan gynnwys y Post Brenhinol)<br>• Polisi defnyddwyr a chystadleuaeth (gan gynnwys rheoli cymhorthdal)<br>• Cydnabyddiaeth gilyddol ar gyfer cymwysterau proffesiynol<br>• Swyddfa Diogelwch a Safonau Cynnyrch<br>• Ffyniant bro a thwf rhanbarthol<br>• Llywodraethu corfforaethol a thryloywder<br>• Archwilio ac ansolfedd<br>• Lletygarwch<br>• Manwerthu<br>• Nwyddau defnyddwyr<br>• Gofal personol<br>• Swyddfa'r Post Cyfyngedig<br>• British Business Bank<br>• Comisiwn Cyflogau Isel<br>• ACAS<br>• Comisiynydd Busnesau Bach<br>• Tŷ'r Cwmnïau<br>• Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd<br>• Gwasanaeth Cystadleuaeth<br>• Y Gwasanaeth Ansolfedd<br>• Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth<br>• Pwyllgor Cyflafareddu Canolog<br>• Swyddog Ardystio<br>• Swyddfa Economeg y Gweithlu<br>• Swyddfa'r Rheoleiddiwr Cwmnïau Buddiannau Cymunedol<br>• Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Nwyddau Groser<br>• Dyfarnwr y Cod Tafarnau<br>• Cyngor Dilysnodi Prydain<br>• Cyngor Adrodd Ariannol<br>• Pwyllgor Polisi Rheoleiddio |
| Yr Arglwydd Offord o Garvel<br><br>Gweinidog dros Allforio | • Gweithredu a hyrwyddo strategaeth allforio ar draws pob sector<br>• Cefnogi busnesau bach a chanolig (BBaCh) i allforio<br>• Gwasanaeth Cymorth Allforio<br>• Teithiau masnach a sioeau masnach<br>• Defnyddio cytundeb masnach rydd (FTA)<br>• Darparu buddsoddiad uniongyrchol allanol<br>• Ymgyrch Gwnaed yn y DU, Gwerthu i'r Byd<br>• Marchnad Fewnol y DU a'r Undeb<br>• Bwrdd Masnach<br>• Cyllid Allforio y DU |
| Iarll Minto<br><br>Gweinidog dros Ddiwygio Rheoleiddiol | • Diwygio rheoleiddio trawslywodraethol<br>• Gwell rheoleiddio<br>• Deddfwriaeth busnes yr Arglwyddi<br>• Pob Bil Aelod Preifat<br>• Materion corfforaethol |